



**Digwyddiad
cofiadwy.
Digwyddiad pwysig.**
Eich canllaw codi arian

**Make it memorable.
Make it matter.**

Your fundraising guide





£100

yn talu am 8 diwrnod o hyfforddiant dementia arbenigol ar gyfer tîm o Gynghorwyr Dementia. Mae Cynghorwyr Dementia yn rhoi cefnogaeth hollbwysig i bobl y mae dementia yn effeithio arnynt pryd maen nhw ei angen fwyaf.

Diolch am wneud rhywbeth yn bwysig

Helo a chroeso. Diolch yn fawr iawn am gofrestru i godi arian i ni. Rydyn ni wrth ein bodd yn eich cael chi yn y tîm.

Os ydych yn meddwl am werthu cacennau neu'n ystyried gwneud naid bynji, mae'r canllaw hwn yn fan cychwyn i feddwl am syniadau a chael awgrymiadau i wneud rhywbeth pwysig i bobl y mae dementia yn effeithio arnynt.



£100

pays for 8 days of expert dementia training for a team of Dementia Advisers. Dementia Advisers provide crucial support for people affected by dementia when they need it most.

Thank you for making it matter


Hello and welcome. A huge thank you for signing up to fundraise for us. We're thrilled to have you on the team.

Whether you're thinking of doing a bake sale or a bungee jump, a quiz night or a ball, this guide is your starting point for ideas and tips on how to make it matter for people affected by dementia.

Lle mae eich arian yn mynd

Dementia yw'r cyflwr sy'n lladd y mwyaf o bobl yn y DU, gan fod rhywun yn datblygu'r cyflwr pob tri munud. Gyda'ch help chi, fe allwn ni atal hyn. Os byddwch yn trefnu eich digwyddiad eich hun, byddwch yn casglu arian er mwyn helpu'r gwaith ymchwil sy'n newid bywyd ac sy'n cefnogi pobl y mae dementia yn effeithio arnynt heddiw.

Fel prif elusen dementia'r DU, rydyn ni'n gweithio'n ddiflino i newid y byd i bobl y mae dementia yn effeithio arnynt. Dyma sut rydyn ni'n gwneud hynny...



Gwaith Ymchwil

Ni yw'r unig elusen yn y DU sy'n buddsoddi mewn gwaith ymchwil i ofal, achosion, ffyrdd o wella ac atal dementia. Rydyn ni'n gwario £150 miliwn ar waith ymchwil arloesol dros y degawd nesaf. Mae pob un o'n prosiectau'n cael ei ysgogi gan anghenion pobl â dementia, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalgwyr.



Cymorth

Mae ein wasanaethau lleol ar draws y DU yn darparu gwybodaeth, gofal a chymorth i bobl â dementia, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorwyr Dementia a gwirfoddolwyr Side by Side sy'n helpu pobl sydd â dementia i barhau i wneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau.



Ymgyrchu

Rydyn ni'n brwydro dros hawliau pawb y mae dementia yn effeithio arnynt. Mae ein hymgyrchoedd yn gwneud yn siŵr bod dementia ar frig yr agenda gwleidyddol. Er enghraifft, mae ein hymgyrch Fix Dementia Care yn gofyn i bobl sefyll gyda ni i ddylanwadu ar newidiadau gwleidyddol i wella'r system gofal cymdeithasol annheg i bobl y mae dementia yn effeithio arnynt.

Where your money goes

Dementia is the UK's biggest killer, with a person developing it every three minutes. With your help, we can stop this. By organising your own event, you'll be raising money to power life-changing research and supporting people affected today.

As the UK's leading dementia charity, we are working tirelessly to change the world for people affected by dementia. Here's how we do it...



Research

We are the only UK charity investing in research into dementia care, cause, cure and prevention. We're spending £150 million on cutting-edge research over the next decade. All our projects are driven by the needs of people with dementia, their families, friends and carers.



Support

Our local services across the UK provide information, care and support to people with dementia, their families, friends and carers. These include Dementia Advisers and Side by Side volunteers who help people with dementia keep on doing the things they enjoy.



Campaigning

We fight for the rights of everyone affected by dementia. Our campaigns keep dementia firmly at the top of the political agenda. For example, our Fix Dementia Care campaign asks people to stand with us to influence political change to improve the unfair social care system for people affected by dementia.



‘Mae cymaint o fwynhad wrth drefnu digwyddiad. Testun balchder mawr yw gweld y gymuned gyfan yn dod at ei gilydd, a chodi arian at achosion mor deilwng.’

Matthew Bullock,
Digwyddiad Positive Vibe

Trefnydd Parti

‘There is so much enjoyment in organising an event. To see the whole community come together, and raising funds for brilliant causes is awe inspiring.’

Matthew Bullock,
Positive Vibe event

Party Planner

Gwireddu'r Syniad

Mae'n ddigon hawdd trefnu eich digwyddiad eich hun. Dyma ganllaw cam-wrth-gam i gael llwyddiant:

1

Pennu dyddiad

Dewiswch ddyddiad ac amser ar gyfer eich digwyddiad a rhowch y neges ar led.

2

Pennu eich targed

Penderfynwch faint o arian rydych chi eisiau ei gasglu a chofiwch fod pob punt yn ein helpu ni i gefnogi'r bobl sydd fwyaf ei angen.

3

Defnyddio eich cysylltiadau

Os oes gennych chi gysylltiadau gyda'r becws neu'r bragdy lleol, gofynnwch iddyn nhw am gymwynas. Mae pobl yn hapus i helpu pan maen nhw'n gwybod bod rhywbeth at achos mor deilwng.

4

Rhoi gwybod i'r byd

Rhannwch eich digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol a gofynnwch i'ch ffrindiau sôn amdano hefyd, gan ddefnyddio'r hashnod **#DigwyddiadPwysig**. Cysylltwch â'ch papur newydd a'ch gorsaf radio leol a gofyn iddyn nhw dynnu sylw at eich digwyddiad.

5

Talu'r arian i mewn

Ar ôl i'ch ddigwyddiad orffen, anfonwch yr arian atom ni gan ddiolch yn fawr iawn i bawb fu'n helpu. Gyda'ch gilydd, rydych wedi dod â ni yn nes at fyd heb ddementia.

Make it happen

Organising your own event couldn't be easier. Here's your step-by-step guide to success:

1

Fix a date

Choose a date and time for your event and start spreading the word.

2

Set your target

Decide how much you want to raise and know that every pound you raise will help us support the people who need it most.

3

Work your contacts

From bakeries to breweries, if you've got local contacts call in some favours to get the job done. When they know what a fantastic cause it's for, people are happy to help.

4

Tell the world

Share your event on social media and ask your friends to post about it too, using the hashtag **#makeitmatter**. Get in touch with your local newspaper and radio station and ask them for a shout out.

5

Pay in the funds

When your event is done, send us the money you've raised and say a massive thank you to everyone who helped make it matter. Together, you've brought us closer to a world without dementia.

Digwyddiad cofiadwy

Pan fyddwch chi'n trefnu eich digwyddiad, mae llawer iawn o ffyrdd i sicrhau ei fod yn un cofiadwy. Fe fyddwn ni gyda chi bob cam o'r ffordd, i gynnig unrhyw help, unrhyw gymorth neu unrhyw syniadau y byddwch chi eu hangen.

Y peth gorau am drefnu eich digwyddiad eich hun yw'r ffaith mai chi sy'n cael gwneud y penderfyniadau. Y ffordd o sicrhau llwyddiant yw gwneud rhywbeth rydych chi'n ei garu. Felly meddylwch am yr hyn sy'n wir mynd â'ch bryd- dyma rai syniadau i ddechrau arni.



Anturus

Os ydych chi'n rhywun dewr a hyderus sy'n hoffi naid bynji neu weiren wib (ac rydyn ni'n eich edmygu chi os ydych chi), yna gadewch i'r adrenalin lifo a rhowch wefr i bawb.



Trefnydd Parti

Ydych chi'n hoffi parti? Ydych chi'n dda am drefnu? Beth am gyfuno eich angerdd a'ch sgiliau i gynnal digwyddiad a fydd yn ysgogi pawb. Beth am gynnal dawn, cystadleuaeth brwydr y bandiau, noson ffilmiau, diwrnod mabolgampau neu ddisgo ysgol...mae llawer iawn o bosibiliadau.



Y ffordd o sicrhau llwyddiant yw gwneud rhywbeth rydych chi'n ei garu



Gwledd i Bawb

Gofynnwch i'ch teulu, eich ffrindiau a'ch cydweithwyr fwynhau gwledd o fwyd a chodi arian ar yr un pryd. Efallai y gallwch chi drefnu pryd o fwyd iddynt gyda'r nos neu beth am werthu cacennau? Gallwch hefyd drefnu nosweithiau cyrri, pryd arbennig gyda'r nos i gŵn neu hyd yn oed noson caws a gwin traddodiadol.



Cwis Feistr

Os ydych chi wrth eich bodd gyda phos neu gwis, fe allwch chi gynnal eich noson gwis eich hun. Byddai hynny'n ffordd dda o wneud yn well na dementia a rhoi cyfle i bawb rydych chi'n eu hadnabod i wneud yn well na'i gilydd (ac mae gan bawb ryw elfen gystadleuol mewn gwirionedd).



Oes gennyh chi rym ewyllys?

Alcohol, siwgr, teledu, caffeine...mae gan bawb ohonom wendidau. Mae rhoi'r gorau i rywbeth am gyfnod penodol (neu efallai am byth) yn ffordd hawdd iawn o deimlo'n dda a gwneud rhywbeth da!



O Drwch Blewyn

Efallai eich bod chi'n ddigon dewr i eillio'ch pen, neu i wisgo wig i'r gwaith. Mae llawer o ffyrdd i godi arian drwy wneud rhywbeth gyda'ch gwallt. Pwy a ŵyr, efallai y byddwch chi wrth eich bodd gyda'ch edrychiad newydd.



I gael rhagor o syniadau ar gyfer codi arian, yn ogystal â deunyddiau fel posteri a baneri, ewch i [alzheimers.org.uk/makeitmatter](https://www.alzheimers.org.uk/makeitmatter)

Make it memorable

When it comes to organising your own fundraising, there's an unlimited number of ways to make it memorable. We'll be right behind you every step of the way, with all the help, support and ideas you need.

The great thing about organising your own event is that you get to call the shots. Doing something you love is the secret sauce in the recipe for success. So have a think about what makes your heart sing – here are some ideas for starters.



Adrenaline Junkie

From bungee jumps to zip wires, if you're among the bold and the brave (for which we salute you), put that adrenaline through its paces and give everyone a thrill.



Party Planner

Love parties? Great organiser? Combine your passion and your skill to put on an event that will get everyone buzzing, whether it's a ball, a battle of the bands, a sleepover, movie night, sports day or old school disco... there are so many ways you could play it.



Food Fanatic

From hosting a dinner party to holding a bake sale (always a great way to raise dough), gather your family, friends and workmates for a fundraising feast. Other favourites include work brunches, curry nights, doggy dinner parties and the good old cheese and wine party.



Quiz Master

If brain-teasers get you buzzing, hosting your own quiz night is a great way to outsmart dementia while giving everyone you know the chance to outdo each other (pretty much everyone has a competitive streak when you get down to it).



Will-powered Wonder

Booze, sugar, TV, caffeine... we all have our vices. Giving up your favourite fix for a set time (or maybe forever) is a super simple way to feel good and do good – a win-win!



Hair Raiser

Whether you brave the shave, wear a wig to work, or let your mates loose with the wax strips, there's a surprising number of hair-themed ways to fundraise. And who knows, you might just love your new look.



Doing something you love is the secret recipe for success



For more fundraising ideas, plus handy resources like posters and bunting, head over to alzheimers.org.uk/makeitmatter



Luca's
Mince Pie Stall
for ADRIAN'S ARMY
my price list:
50p each
6 for £2.50
12 for £5.00

A WORLD
WITHOUT
DEMENTIA
adriansarmy.org.uk

ADRIAN'S ARMY
YOUNG ALZHEIMER'S

My name is Luca. I am
raising money for Adrian's Army because my dad
has early on-set Alzheimer's
and we are raising money
for Alzheimer's Society.

Cafodd Adrian, tad Luca wybod bod ganddo ddementia cynnar yn 55 oed. Sefydlodd ei deulu dŷm codi arian o'r enw 'Byddin Adrian' a phenderfynwyd mynd ati i gynnal digwyddiadau codi arian am flwyddyn gyfan ar gyfer Alzheimer's Society. Fel rhan o hyn, gwerthodd Luca fins peis cartref bob dydd Sadwrn yn y cyfnod cyn y Nadolig a chasglodd £1,000!

Luca's dad Adrian was diagnosed with young-onset dementia aged 55. His family formed a fundraising team 'Adrian's Army' and set out to take on a whole year of fundraising for Alzheimer's Society. As part of this, Luca sold homemade mince pies every Saturday in the run up to Christmas and raised £1,000!

**Gwledd
i Bawb**

**Food
Fanatic**

Mae pob ceiniog yn cyfri

Pan fydd eich digwyddiad wedi dod i ben, bydd yn amser talu eich rhoddion. Mae tair ffordd hawdd o wneud hynny:

- 1** Os ydych chi wedi codi arian drwy eich tudalen JustGiving, bydd popeth yn digwydd yn awtomatig: bydd yr arian yn cael ei anfon atom ni, bydd Rhodd Cymorth yn cael ei chasglu, a byddwn yn diolch i'ch noddwyr. Y diwedd!
- 2** Rhowch yr arian yn y banc ac yna gallwch dalu i ni gyda cherdyn neu gerdyn debyd dros y ffôn – bydd ein tîm gofal cwsmeriaid yn barod i'ch helpu chi ar **0330 333 0804**.
- 3** Anfonwch sic atom ni (yn daladwy i Alzheimer's Society) i **Alzheimer's Society, Scott Lodge, Scott Road, Plymouth, PL2 3DU**.

Make it all add up

Once your event is done and dusted, it's time to pay in your donations. There are three easy ways to do it:

- 1** If you've fundraised through your JustGiving page, everything happens automatically: the money is sent to us, Gift Aid collected, and your sponsors thanked. Job done.
- 2** Bank the cash and pay us by credit or debit card over the phone – our customer care team will be ready and waiting on **0330 333 0804**.
- 3** Send us a cheque (payable to Alzheimer's Society) to **Alzheimer's Society, Scott Lodge, Scott Rd, Plymouth PL2 3DU**.



£1,000

yn talu i wyddonwyr Canolfan Ymchwil Dementia y DU gael 35 awr ar ficrosgop arbenigol sy'n eu helpu i ail greu celloedd yr ymennydd. Mae'r offer hwn yn caniatáu iddyn nhw weld lle mae materion sylfaenol yn bodoli o ran datblygiad dementia.



£1,000

pays for our UK Dementia Research Institute scientists to have 35 hours of time on a specialised microscope which helps them to recreate the cells of the brain. This equipment allows them to see where fundamental issues may lie in the development of dementia.

Sicrhau trefn i'ch digwyddiad codi arian (gwybodaeth gyfreithiol)

Raffl a loteri: Os ydych yn cynnal loteri dros gyfnod o amser, neu mewn mwy nag un lleoliad, bydd angen i chi gael trwydded gan eich cyngor lleol. Os ydych yn bwriadu tynnu eich loteri neu raffl ar yr un diwrnod ag yr ydych yn gwerthu'r tocynnau, ni fydd angen trwydded ond fe fydd raid i chi godi pris safonol. Ewch i gamblingcommission.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Casgliadau: Os ydych yn bwriadu casglu arian ar eiddo preifat fel archfarchnad neu ganolfan arddio, bydd rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan y perchennog neu'r rheolwr. Os ydych yn bwriadu casglu arian ar y stryd neu o fannau cyhoeddus, byddwch angen cael trwydded gan y cyngor lleol – neu os ydych yn Llundain, gan yr Heddlu Metropolitaidd.

Bwyd a diod: Os ydych chi'n gweini ac yn ymdrin â bwyd neu ddiod mewn digwyddiad codi arian, mae hylendid yn bwysig iawn. Mae popeth y mae angen i chi ei wybod yn food.gov.uk. Os byddwch chi'n gweini alcohol, gofynnwch i'r lleoliad neu eich cyngor lleol a oes angen trwydded arnoch.

Diogelu data: Bydd angen gwneud yn siŵr bod eich gweithgaredd codi arian yn cadw at y gyfraith o ran diogelu data. Peidiwch â phoeni, nid yw mor frawychus â hynny; mae'n cynnwys gwarchod enwau pobl, manylion cyswllt, ffotograffau ac unrhyw wybodaeth bersonol arall. Meddyliwch sut hoffech i'ch manylion personol chi gael eu defnyddio gan sefydliad.

Yswiriant: Fel trefnydd y digwyddiad, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi eich gwarchod – nid yw yswiriant Alzheimer's Society yn gwarchod digwyddiadau codi arian personol. O ran digwyddiadau mawr, trefnwch yswiriant atebolrwydd cyhoeddus os nad oes gan y lleoliad yswiriant eisoes.

Ystyriaethau a chaniatadau eraill:

- Gwneud yn siŵr bod eich lleoliad yn addas ar gyfer pobl ag anableddau.
- Holi eich Swyddog Codi Arian yn y Gymuned, y lleoliad a/neu'r awdurdod lleol a oes angen caniatâd ar gyfer unrhyw beth rydych yn ei drefnu sy'n cael effaith ar yr ardal neu'r cyhoedd.
- Gadael i'r heddlu wybod am eich digwyddiad os bydd yn cael effaith ar draffig.
- Efallai y byddai'n well i chi gael cyngor ar iechyd a diogelwch gan yr Ambiwllans Sant Ioan yn eich ardal a'r orsaf dân leol.
- Cael trwydded adloniant cyhoeddus os yw eich digwyddiad mewn adeilad sydd heb drwydded eisoes.

Make it run like clockwork (the legal stuff)

Raffles and lotteries: If you run a lottery over a period of time, or at more than one venue, you'll need a license from your local council. If you plan to draw your lottery or raffle winner on the same day you sell the tickets, you won't need a license but will have to charge a standard price. Check out gamblingcommission.gov.uk for the low down.



Collections: For collections on private property like supermarkets or garden centres, you'll need to get written permission from the owner or manager. For collections in the street and public places, you'll need a licence from the local council – or in London, from the Metropolitan Police.



Food and drink: If you're handling and serving things to eat and drink at a fundraising event, proper hygiene is a must. You'll find everything you need to know at food.gov.uk. If you'll be serving alcohol, check with your venue and local council as to whether you need a licence.



Data protection: You'll need to make sure your fundraising stays within data protection laws. Worry not, this isn't as daunting as it sounds; it's mostly about protecting people's names, contact details, photographs and other personal information. Think about how you'd want your personal details kept safe by an organisation.



Insurance: As event organiser, it's down to you to make sure you're covered – Alzheimer's Society's insurance doesn't cover personal fundraising events. For large events, you'll need to take out public liability insurance if the venue doesn't already have something in place.



Other considerations and permissions:

- Make sure your venue is accessible for people with disabilities.
- Check with your Community Fundraiser, venue and/or local authority whether you need permission for anything that has an impact on the area or public.
- Let the police know about your event if it's likely to affect traffic.
- You might want to get health and safety advice from your local St John Ambulance and fire station.
- Get a public entertainment licence if your event is in a building that doesn't already have one.



Cymdeithas Alzheimer's yw'r brif elusen dementia yn y DU. Rydym yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth, yn gwella gofal, yn ariannu ymchwil, ac yn creu newid parhaol i bobl y mae dementia yn effeithio arnyn nhw.

Alzheimer's Society is the UK's leading dementia charity. We provide information and support, improve care, fund research, and create lasting change for people affected by dementia.

0330 333 0804

makeitmatter@alzheimers.org.uk

alzheimers.org.uk/makeitmatter

[#makeitmatter](https://twitter.com/makeitmatter)



Alzheimer's Society a registered charity in England and Wales (296645); the Isle of Man (1128) and operates in Northern Ireland.

